Cofnodion Pwyllgor Cynllunio a Dibenion Cyffredinol Cyngor Tref Llandeilo ddydd Mercher, 14 Ionawr 2009 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7.00 pm

Yn Bresennol: y Cyng. Colin Jenkins, y Maer y Cyng. Edward Thomas, y Cyng. Roy Davies, Christopher Parish, y Dirprwy Faer y Cyng. Charlotte Leadbeater, y Cyng. Julia Jones, y Cyng. Fran Murphy Roger Phillips (Clerc y Dref) Des Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau y Cyng. Richard Wallace, y Cyng. Dawn Wallace

Cof 216 / Ion / 09 Nid oedd unrhyw Geisiadau Cynllunio i Benderfynu yn eu Cylch

Cof 217 / Ion / 09 Penderfyniadau Ceisiadau Cynllunio

E/19789 Adeiladu derbynfa newydd, estyniad bwyty a thoiledau i hwyluso gwaith moderneiddio ac ailwampio Tŷ Tafarn yn Salutation Inn
CANIATAWYD

E/20141 2 fflat 2 ystafell wely un talcen ar dir y tu ôl i 56, New Road
GWRTHODWYD

E/20199 Newid defnydd arfaethedig Tŷ Tafarn i ddeintyddfa i ddarparu cyfleuster newydd ar gyfer adleoli'r practis presennol, gan gynnwys ail-ddylunio arwyddion i flaenolwg yr adeilad presennol yn Farmers Arms, Stryd Rhosmaen
CANIATAWYD

E/20123 Dymchwel yr adeilad presennol a darparu cyfleusterau ystafelloedd newid gan gyflenwr adeiladu priodol ym Mharc Le Conquet
CANIATAWYD

Cais i gofrestru annedd sy'n cael ei alw ar hyn o bryd yn The Cottage, y tu ôl i 133, Stryd Rhosmaen. O hyn ymlaen, gelwir hwn yn The Cottage, Abbey Terrace, SA19 6BD.

Cof 218 / Ion / 09 Nid oedd unrhyw achos o Dynnu Cais Cynllunio yn Ôl.

Cof 219 / Ion / 09 Nid oedd unrhyw Apeliadau Cynllunio.

Cof 220 / Ion /09 Nid oedd unrhyw Faterion Trafnidiaeth a Phriffyrdd

Cof 221 / Ion /09 Goleuo

Adroddodd y Clerc fod y costau goleuo Troedffordd ar gyfer blwyddyn ariannol 2009-10 wedi cyrraedd o Gyngor Sir Caerfyrddin. Derbyniodd cynghorwyr y costau ynni o £320.98, ond roeddent yn dymuno ymholi pam yr oedd y costau cynnal a chadw a gyfrifwyd ar gyfer y 6 golau

stryd yr oedd y Cyngor yn gyfrifol amdanynt mor uchel â £498. Roedd y Clerc am gysylltu â CSC am eglurhad.

Cof 222 / Ion / 09 Adroddiad y Swyddog Technegol

Adroddodd y Swyddog Technegol fod angen ailosod y ddau glo digidol yn Neuadd y Sir gan fod y ddau'n ddiffygiol. Roedd ffôn symudol y Swyddog Technegol a ddefnyddir i gofnodi delweddau digidol wedi torri. Argymhellwyd bod y Pwyllgor Cyllid yn costio ffôn newydd. Nododd Mr Davies fod yr holl oleuadau Nadolig wedi dod i lawr a'u bod wedi'u storio.

Cof 223/ Ion /09 Gohebiaeth

1. Cymru Gynaliadwy. Cynhadledd rad ac am ddim am Newid Hinsawdd yng Nghaerdydd ddydd Gwener, 30 Ionawr.
   Byddai'r Cyng. Charlotte Leadbeater yn mynychu.
2. Ymgynghoriad Strategaeth Gymunedol CCC. Byddai'r Clerc yn cylchredeg y manylion i aelodau.
3. LlCC – ymgynghoriad am osod terfynau cyflymder lleol. Byddai'r Cyng. Colin Jenkins yn darllen ac yn adrodd yn ôl.
4. Cynhadledd Chwarae mewn Partneriaeth, Arberth, ddydd Mawrth, 20 Ionawr. Nodwyd.
5. CSC/Un Llais Cymru – Digwyddiad Rhanddeiliaid Cynghorau Tref a Chymuned ar 4 Chwefror rhwng 1 a 4.30pm. Roedd y Cyng. Roy Davies yn siomedig bod aelodau'r Fforwm Rhanddeiliaid eisoes wedi'u penodi heb yn wybod i'r Cyngor. Byddai'n cysylltu ag Un Llais Cymru am y digwyddiad.

Cof 224 / Ion / 09 Nid oedd unrhyw fusnes pellach.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.50 p.m.